

# Fforwm Derbyn

## Cylch Gorchwyl

Amlinellir swyddogaeth fforymau derbyn yn Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003.

Mae'n **rhaid** i'r fforymau Derbyn:

- Ystyried pa mor dda y mae'r trefniadau derbyn presennol ac arfaethedig yn gwasanaethu buddiannau plant a'u rhieni o fewn ardal yr awdurdod lleol.
- Hybu cytundeb ar faterion derbyn.
- Ystyried pa mor gynhwysfawr a hygyrch yw'r llenyddiaeth a'r wybodaeth dderbyn i rieni, a gyhoeddir gan bob awdurdod derbyn o fewn ardal y fforwm.
- Ystyried effeithiolrwydd unrhyw gyd-drefniadau derbyn arfaethedig.
- Ystyried pa fodd y gellir gwella'r prosesau derbyn a sut y mae'r derbyniadau gwirioneddol yn cyfateb i'r nifer derbyniadau a gyhoeddir.
- Monitro derbyn plant sy'n cyrraedd ardal yr awdurdod y tu allan i'r cylch derbyn arferol gyda'r bwriad o hybu trefniadau dros ddosbarthu'r plant yn deg ymysg yr ysgolion lleol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw hoff ddewis a fynegir yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 86(1) o [Ddeddf 1998](#) ac yn unol â'r Cod hwn.
- Hybu trefniadau derbyn effeithiol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal a phlant a waharddwyd o'r ysgol.
- Ystyried unrhyw faterion derbyn sy'n codi.
- Dylai'r fforwm derbyn ystyried dyddiadau priodol ar gyfer derbyn ceisiadau derbyn i'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn eu hardal, mewn ymgynhoriad ag awdurdodau cyfagos fel bo'n briodol.
- Adolygu pa mor gynhwysfawr, effeithiol a hygyrch yw'r cyngor a'r arweiniad a roddir i rieni gan yr ALLau a'r ysgol trwy gyfrwng y prosectws cyfansawdd cyhoeddedig (gweler paragraff 2.12).
- Cytuno ar weithdrefnau i sicrhau bod plant all fod yn agored i niwed a'r rhai sy'n cyrraedd yr ardal y tu allan i'r cyfnod derbyn arferol, yn cael eu gosod mewn ysgol cyn gynted â phosib. Mae plant agored i niwed yn cynnwys rhai gafodd eu gwahardd o'r ysgol o'r blaen, plant mewn gofal, troseddwy'r ifanc, plant gydag AAA a/neu anabledau, plant Sipsiwn a Theithwyr, neu'r rhai sy'n anodd eu gosod neu sydd ag ymddygiad heriol. Dylid delio â throsglwyddiad rheoledig plant o'r fath mor gyflym a sensitif â phosibl. Dylai'r fforwm sicrhau bod pob awdurdod derbyn yn yr ardal yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a gytunwyd a dylai fonitro er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.
- Monitro cydymffurfiad â Derbyniadau Ysgol, y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a deddfwriaeth berthynol.

## Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm *
Gwag	<b>Cadeirydd</b>	
Mrs S O' Halloran	<b>Is-gadeirydd</b>	7 mlynedd
Cyng. H David	Aelod Cabinet	3 blynedd
Mr R Davies	Rheolwr Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	1 flwyddyn
Mrs M Treharne	Swyddog Cefnogi Ysgolion, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	0 blwyddyn
Gwag	Cynrychiolydd yr Esgobaeth Gatholig Rufeinig	
Mrs R Dixon	Pennaeth Ysgol Y Ferch O'r Sger Corneli	6 blynedd
Mr J Tarran	Pennaeth Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru	2 flynedd
Mrs A Carhart	Pennaeth Ysgol Gyfun Maesteg	4 blynedd
Mr W Bond	Rhiant Lywodraethwr Ysgol Arbennig Heronsbridge	7 mlynedd
Gwag	Cynrychiolydd y gymuned leol	

**Mae'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau i fforymau gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.**